

Ffordd Pererindod Penrhys Llantrisant i Donyrefail



Cychwyn: Bull Ring, Llantrisant (cyfeiriad grid ST 047834, côd post CF72 8EB)

**Diwedd: Concorde Drive, Tonyrefail (cyfeiriad grid ST 019788,
côd post CF35 8NE)**

Pellter: 5 milltir / 8cm

N.B Mae problemau dros dro gyda'r hen trac reilffordd.

Ar Gam 8 parhauwch ar hyd y lôn os gwelwch yn dda.

Yn y pen draw fe fyddwch yn weld un slab gerrig yn y wal am Edward II ger Pant y Brad.

Neidiwch i'r Gam 13 a chariwch ymlaen.

1. O gerflun William Price yn y Bull Ring ewch i'r chwith a chroeswch Stryd yr Alarch.
2. Ewch yn eich blaen i lawr y rhiw ar hyd Heol y Sarn i gyrraedd comin Llantrisant a chroeswch grid gwartheg. Fe allwch ddod o hyd i Brofiad y Bathdy Brenhinol trwy fynd i'r chwith wrth i'r ffordd fforchio, ac yna cadw ar y chwith wrth i'r ffordd ledu. Dowch mas o'r Bathdy heibio'r fynedfa i'r maes parcio, gan gymryd gofal wrth groesi'r heol. Ar y dde mae iard goed. Ewch drwy eu maes parcio nhw a dilynwch y llwybr cyhoeddus ar lan yr afon, a dilyn marciau Bunny Walk Rhif 1. Ewch dros y gamfa i'r goedwig. Wrth yr ail gamfa, ewch i'r cae ar y dde a dilynwch y llwybr cyhoeddus i'r ffarm. Ewch dros ddwy gamfa, cerddwch ar hyd y ffordd drwy fuarth y ffarm, trowch i'r chwith a bron ar unwaith fe welwch faen ffiniol ar eich chwith. Fe fyddwch yn ail ymuno â'r ffordd pererindod wrth bwynt 4.
3. Cymrwch y fforch ar y dde (ffordd fetel gul) i groesi'r comin. Ewch ymlaen am ychydig dros filltir (1.8cm) nes cyrraedd hen faen sy'n nodi ffin ar y chwith. Neu, yn lle hynny, gallwch basio'r faen ffiniol a dal i gerdded heibio Capel Annibynwyr Castellau. Trowch i'r chwith i Heol Ddu. Fe fyddwch yn ail-ymuno a'r Ffordd ger pwynt 6.
4. Trowch i'r chwith dros y bont a chroeswch y nant. Ewch yn syth ymlaen ar hyd y llwybr nes i chi gyrraedd peilon, ac ewch yn eich blaen i gornel y cae. Trowch i'r dde a dilynwch ffin y cae gan ddringo tipyn bach.
5. Pan ddaw'r cyfle, trowch i'r chwith trwy glwyd a chroeswch y cae tuag at glwyd arall (mae'r ardal yma yn cael ei datblygu, ac felly fe allai safle'r ffensys a'r clwydi fod yn wahanol). Ewch trwy'r glwyd a chyda ffens bren ar eich chwith, ewch yn eich blaen nes i chi gyrraedd iet yng nghornel chwith y cae. Fe ddowch allan i ffordd wledig.
6. Trowch i'r chwith i Heol Ddu gan gymryd gofal o'r traffig.
7. Ewch heibio tafarn y Countryman ar y chwith.

8. Ar ôl rhyw 220 llath (200m), ewch i'r dde ar hyd y lôn sy wedi ei marcio fel Fferm Treferig Cottage a Fferm Treferig Isha. Treferig oedd safle Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn y 19G. Ewch ar hyd y lôn at bont garreg.
9. Ewch dros y bont ac yna'n syth tros gamfa ar y chwith. Peidiwch cymryd y llwybr ar y chwith y tu hwnt i'r gamfa.
10. Ymunwch â hen drac rheilffordd ar lan Nant Muchudd ac ewch ar ei hyd tan i chi gyrraedd ffordd ger Ty Treferig. Trowch i'r chwith.
11. Ar ôl rhyw chwarter milltir (400m), croeswch gamfa sydd ger iet ar y dde. Trowch ar eich union i'r chwith a dilynwch y llwybr, gyda'r coed ar eich chwith. Croeswch lôn (mae na gamfa ar bob ochr) ac ewch yn eich blaen ar hyd llwybr grafel. Mae Oaklands ar y chwith.
12. Croeswch gamfa arall sydd ger iet ac ewch yn eich blaen i glwyd arall, lle rych chi'n cwrdd â Heol Llantrisant. Yn union ar y chwith mae maen carreg, gyda'r dyddiad 1909 arno. Dyma'r man lle, yn ôl yr hanes, y cafodd y Brenin Iorweth 11 ei ddal yn 1326.
13. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i bentref Pant y Brad.
14. Ar ôl mynd heibio tri thy mawr ar y dde ar gwr y pentref, trowch i'r dde ar hyd llwybr. Ewch yn eich blaen dros y nant ac ewch drwy gatiâu dwbwl tuag at Fferm Treboeth.
15. Ewch heibio tŷ mawr ar y dde. Heibio iet y tu ôl i'r tŷ, a chroeswch bont dros nant ac ewch trwy glwyd arall. Trowch i'r dde lan y rhiw.
16. Ar ôl tua 30 llath (27m) trowch i'r chwith dros gamfa. Dilynwch y llwybr i'r diwedd, gan fynd trwy iet mochyn werdd.
17. Ewch i'r dde ac fe ddowch yn fuan at llwybr wedi ei balmantu. Gyda'r rheiliau gwyrdd ar y dde, ewch ar hyd y llwybr hwn, i fyny'r grisiau. Ar y gyffordd, ewch lan y rhiw gan ddilyn y ffordd at fencyn porfa ar y dde ar ôl y tŷ ola.
18. Os ydych am aros yn Nhonyrefail, ewch ymlaen ar hyd Investiture Place (sy'n troi yn Concorde Drive) i'r ffordd i fysis. I gyrraedd canol y dre, cerddwch lawr y rhiw. Mae'r tro cynta ar y chwith yn mynd â chi i ffordd i gerddwyr sy'n arwain at y Stryd Fawr a chanol y dref.

Mae'r stampiau paspord mewn dau le yn Nhonyrefail. Mae un yn Capel Hill Stores, Capel Hill, Heol Tyllwyd. Gan ddechrau o'r man lle mae Investiture Place yn cwrdd â Heol Llantrisant, croeswch Heol Llantrisant a throwch i'r dde. Y troad nesa ar y chwith yw Heol Tyllwyd lle mae Capel Hill Stores. Mae'r stamp arall ym mecws Truly scrumptious. Ewch i ddiwedd y Stryd Fawr a throwch i'r chwith i Stryd y Felin. Fe welwch y becws ar y stryd honno.

Gyda diolch i Janet Sully a phawb sydd wedi cyfrannu at fapio'r daith.

28/02/2020